
# Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

## Chwe Cham at Sylw Dyledus




### Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae gofyn cofrestru gofal plant pan fo darparwyr yn cynnig gofal i blant hyd at wyth oed. Mae'r gofyniad hwn wedi'i amlinellu yn Adran 19 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ac mae'n cynnwys darparwyr gofal dydd a gwarchodwyr plant. Mae'n rhaid i'r holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig gydymffurfio â rheoliadau perthnasol a chyda safonau a amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fe sicrheir safon y gofal drwy gyfrwng arolygiadau a mesurau rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn erbyn y safonau hyn. Mae gofal plant a reoleiddir yn cynnwys amrywiaeth eang o wahanol ddarpariaethau, gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, gofal plant allan o'r ysgol, darpariaeth mynediad agored a chynlluniau chwarae dros y gwyliau.

Rydym ni'n cynyddu'r terfyn oedran uchaf o ran ei gwneud yn orfodol i gofrestru gofal plant tu hwnt i wyth oed am y rhesymau canlynol:

- Mae'r system reoleiddio bresennol yng Nghymru yn golygu nad oes ffordd gyson o reoleiddio ansawdd ac addasrwydd gofal plant ar gyfer plant wyth oed a hŷn. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yng ngweddill y Deyrnas Unedig.
- Fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru, yn ein cynllun Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, i gynnal adolygiad o'r broses o reoleiddio ac arolygu'r blynyddoedd cynnar. Roedd Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal

plant ac addysg gynnar, a gyhoeddwyd yn 2014, yn argymell y dylid cofrestru ac arolygu'r holl ddarparwyr gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys gofal ar gyfer plant wyth oed a hŷn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau bod fframwaith gofrestru briodol ar waith yng Nghymru, sy'n rhoi sicrwydd o ran pa mor briodol a diogel yw'r gofal a ddarperir i bob plentyn. Bydd hyn o fantais nid yn unig i'r plentyn, ond hefyd i rieni/gofalwyr, a darparwyr gofal plant.

- Mae Cymru hefyd wedi ymrwymo i gydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn perthynas â'i holl waith polisi. Mae'r confensiwn yn cynnwys yr angen i sicrhau y gofalir am blant yn ddigonol, bod rhywun yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u bod yn cael cefnogaeth gydag unrhyw anabledd sydd ganddynt. Rydym ni am sicrhau ein bod yn cyflawni'r erthyglau o fewn y confensiwn nid yn unig ar gyfer plant ifanc, ond ar gyfer plant hŷn mewn gofal plant hefyd.

Prif nodau'r newidiadau arfaethedig yw:

- **Cymuseroldeb** – caiff y gofal a ddarperir i blant ei reoleiddio mewn ffordd gymesur gan gymryd i ystyriaeth anghenion ac oedran y plentyn.
- **Ansawdd** – darperir gwasanaeth gofal o ansawdd ar gyfer plant o bob oedran ar draws ystod o ddarpariaethau.
- **Diogelwch** – gofalir am bob plentyn mewn amgylchedd diogel.

Drwy hyn, rydym yn gobeithio sicrhau cynnydd yn nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig yng Nghymru o 0 i 12 oed.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer bwrw ymlaen â'n hamcan polisi a sicrhau fframwaith briodol ar gyfer cofrestru gofal i blant dros 8 oed, aethom ati i ystyried nifer o opsiynau, gan gynnwys:

- Beth ddylai'r uchafswm oedran fod ar gyfer cofrestru darparwyr gofal
- A ddylid cael system wirfoddol neu orfodol ar gyfer rheoleiddio gofal ar gyfer plant dros 8 oed

Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i ymgymryd â nifer o weithgareddau wrth ddatblygu'r polisi hwn. I ddechrau, aethant ati i ymgysylltu â chynrychiolwyr y sector gofal plant. Fe wnaed hyn drwy CWLWM, consortiwm o'r 5 prif sefydliad yn y sector gofal plant. Aethpwyd ati hefyd i ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r sector Chwarae ac Awdurdodau Lleol. Yn olaf, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015 yn ceisio safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig i'r broses o gofrestru gofal plant yng Nghymru. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori yn y De a'r Gogledd, a hynny ar lefel strategol o fewn Awdurdodau Lleol, Gofal Plant, Chwarae a'r Sector Ieuenctid. Cynhaliwyd digwyddiadau ar lefel leol ar gyfer darparwyr mewn partneriaeth â chonsortiwm gofal plant CWLWM a Chwarae Cymru.

Er bod yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac yn agored i bawb, ni aethom ati i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, yn y digwyddiadau ymgynghori, cynhaliwyd trafodaethau ar effaith y newidiadau arfaethedig ar blant a chynhaliwyd digwyddiad penodol â'r gwasanaeth ieuenctid, sy'n gweithio â phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Yn ystod digwyddiadau ôl-

ymgynghori, gofynnwyd i ddarparwyr hefyd gynnig eu “prif awgrymiadau” ar gyfer gofalu am blant dros 8 oed, ac ymgysylltu â nhw. Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth hon i lunio cymorth a chefnogaeth ar gyfer darparwyr wrth ofalu am blant, er mwyn dysgu gwersi ar y mathau o anghenion a fydd gan blant hŷn.

Dangosodd yr ymgynghoriad bod cefnogaeth eang o’r sector gofal plant dros ymestyn y broses gofrestru i gynnwys plant 8 oed a hŷn. Cafodd sicrhau ‘triniaeth gyfartal ar gyfer pob plentyn yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig’ ei nodi fel rheswm dros gefnogi’r cynigion, gyda sylwadau yn cyfeirio at y ffaith fod plant dros 8 oed hefyd yn haeddu'r un gofal o ansawdd â phlant o dan yr oedran hwn.
Yn dilyn y broses ymgynghori, ac yn sgil yr ymatebion a ddaeth i law, penderfynwyd ymestyn yr uchafswm oedran ar gyfer cofrestru gofal plant o 8 i 12 oed, a hynny i ddod i rym o 1 Ebrill 2016. Roedd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn awgrymu mai dyma oedd yr oedran uchaf lle’r oedd y rhan fwyaf o rieni yn defnyddio gofal plant ffurfiol. Byddai hyn hefyd yn cysoni’r system yng Nghymru â rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig, yn ei halinio â’r cynllun Gofal Plant Di-dreth newydd yn 2017 ac yn helpu i leihau’r peryglon o ddod â gweithgareddau ieuenctid eraill o fewn cwmpas cofrestru gofal plant.

Fel rhan o’r trefniadau i ymestyn y broses gofrestru, bydd hefyd angen cyflwyno rhai newidiadau i’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae angen i’r newidiadau hyn gymryd i ystyriaeth gwahanol ofynion ar gyfer plant hŷn, er mwyn sicrhau y caiff eu gofal ei reoleiddio mewn ffordd sy’n gymesur i’w hoedran a’r cynnydd mewn annibyniaeth. Caiff y newidiadau eu llywio gan yr ymatebion i’r ymgynghoriad, y gwaith ymgysylltu â’r sector gofal plant a chwarae, a threfniadau presennol mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Bydd hefyd yn sicrhau bod newidiadau yn talu sylw digonol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a’r Hawliau’r Plentyn.

Mae’r newidiadau hyn yn cynnwys diwygio’r gofynion o ran cymwysterau i sicrhau bod darparwyr yn gymwys i ofalu am blant hyd at 12 oed, a diwygio’r ratios oedolion-i-blant er mwyn sicrhau y gall darparwyr gynnig gofal diogel o ansawdd i blant, tra hefyd yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol y gallai newidiadau o’r fath eu cael ar y sector. Cafodd y newidiadau hyn eu llywio gan ymatebion i’r ymgynghoriad, digwyddiadau eraill ar ôl yr ymgynghoriad â’r sector gofal plant a gwybodaeth am ddarpariaeth gofrestredig bresennol gan AGGCC.

O ganlyniad i gynyddu’r uchafswm oedran o ran ei gwneud yn ofynnol i gofrestru gofal plant, gwnaed trefniadau hefyd i ymestyn eithriadau presennol o’r rheoliadau gofal. Mae’r rhain yn cynnwys darpariaethau nad yw’r gofal yn hirach na dwy awr mewn unrhyw ddiwrnod a’r rheiny lle mae gofalwyr yn darparu hyfforddiant mewn gweithgareddau penodol e.e. chwaraeon neu’r celfyddydau perfformio. Yn unol â’r ymatebion i’r ymgynghoriad, bydd gwasanaethau ieuenctid ar gyfer plant sydd wedi cyrraedd 11 oed hefyd wedi’u heithrio o orfod cofrestru.

<u>Cysylltiadau â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant</u>
Cyn mynd ati i ymgynghori, aethom ati i ystyried y Confensiwn hwn wrth ddatblygu newidiadau arfaethedig i’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod cynigion o fewn yr ymgynghoriad yn cyd-fynd â’r safonau cyfredol, ac yn bodloni amcanion perthnasol y Confensiwn. Nodwyd yr erthyglau y gellir eu cyflawni drwy’r newidiadau deddfwriaethol hyn yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisi.

Ar ôl ymgynghori, rydym wedi gweithio’n ofalus â’r sector a darparwyr i sicrhau bod ein gofynion yn addas i’w diben ar gyfer plant hŷn. Ym mhob rhan o’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig, rydym wedi nodi’r gofyniad i blant hŷn allu mynegi eu barn pan mae’n dod i’w anghenion, a

dylanwad ar y lleoliad. Y nod yw annog, datblygu a chefnogi plant hŷn i feithrin sgiliau pwysig ac i ddatblygu wrth fynychu gofal plant neu leoliadau chwarae.

Bydd y newidiadau o'u hanfod yn rhoi mwy o faich reoleiddio ar y sector. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio sicrhau bod unrhyw ofynion ychwanegol ar ddarparwyr yn gymesur ac yn cymryd i ystyriaeth y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi cydweithio ag AGGCC i sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi pob darparwr gofal plant i weithredu cyfnod pontio llyfn wrth gydymffurfio â'r rheolau cofrestru newydd a newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r trefniadau sydd wedi'u gweithredu yn lleihau'r baich a'r amhariad ar fusnesau darparwyr. Yn ogystal, mae unrhyw newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gymesur â chyfnodau cyflwyno angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff effaith y newidiadau eu lleihau, yn ogystal â'r posibilrwydd o gostau ychwanegol, sy'n adlewyrchu egwyddor arweiniol erthygl 3 o'r Confensiwn, o ran sicrhau buddiannau gorau plant.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Mae nifer o erthyglau o fewn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y mae ein newid polisi yn ceisio eu cyflawni, gan gynnwys:

- Mae **Erthygl 3** yn datgan y dylai pob sefydliad weithio at yr hyn sydd orau i'r plentyn. Mae prif fuddiannau'r plentyn wrth wraidd y newidiadau hyn, ac mae'n golygu sicrhau bod gwasanaethau sy'n gofalu am blant yn cydymffurfio â safonau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Prif nod y safonau yw sicrhau y caiff plant y gofal angenrheidiol mewn amgylchedd diogel o ansawdd.
- Mae **Erthygl 12** yn datgan bod gan blant yr hawl i ddweud eu barn yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Yn y cyfnod ôl-ymgynghori, rydym wedi gweithio'n ofalus â'r sector a darparwyr i sicrhau bod ein gofynion yn addas at eu diben, ac nid ydym yn cymryd yn ganiataol bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol yn foddhaol o ran rheoleiddio gofal plant dros 8 oed. Drwy'r safonau diwygiedig, rydym wedi nodi bod angen i blant hŷn allu fynegi eu barn o ran eu holl anghenion, a dylanwad ar y lleoliad. Fe ddatblygwyd hyn er mwyn annog, datblygu a chefnogi plant hŷn i feithrin sgiliau arbennig ac i ddatblygu yn ystod eu hamser mewn lleoliad gofal plant neu chwarae.
- Mae **Erthygl 18** yn datgan y dylai'r Llywodraeth helpu rhieni i edrych ar ôl eu plant, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad statudol i sicrhau bod gofal plant cynaliadwy, fforddiadwy o ansawdd uchel ar gael ledled Cymru, ac mae'n gweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol i gyflawni hyn. Bydd y newid polisi hwn yn sicrhau y caiff darpariaeth ei diogelu ar gyfer plant hyd at 12 oed. Bydd hefyd yn galluogi rhieni i gael mynediad at gymorthdaliadau treth ledled y Deyrnas Unedig sy'n agored i rieni sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig, er mwyn gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy.

- Mae **Erthygl 19** yn datgan y dylai'r Llywodraeth weithredu i ddiogelu plant rhag camdriniaeth gan ddefnyddio'u holl bwerau. Drwy gofrestru lleoliadau gofal plant, bydd gofyn iddynt gydymffurfio ag adran 9.6- 9.9 (Ymddygiad), 20.1-20.6 (Amgylchedd) a 24.12 (Diogelwch) o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Drwy ymestyn y safonau hyn i blant hŷn, byddwn yn gwella gweithdrefnau diogelu.
- Mae **Erthygl 23** yn datgan y dylai partïon ar ran y wladwriaeth sicrhau y gall plant ag anabledd gael gofal arbenigol a chefnogaeth er mwyn gallu byw bywydau llawn ac annibynnol. Drwy gofrestru lleoliadau gofal plant, bydd gofyn iddynt gydymffurfio ag adrannau 4.8 a 4.9 (Bodloni anghenion unigol) y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r rhain yn datgan yn benodol y dylai'r cyfleusterau a'r amgylchedd fod yn addas ar gyfer plant ag anabledd a phlant gydag anghenion addysgu arbennig, er mwyn iddynt gael yr un cyfleoedd a'u cyfoedion i hyrwyddo eu lles a'u datblygiad.

## Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Wrth ddatblygu'r polisi hwn, rydym wedi cymryd i ystyriaeth Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel yr amlinellir uchod. Drwy gynyddu'r uchafswm oedran ar gyfer gorfod cofrestru darpariaeth gofal plant, mae'n sicrhau y bydd plant hyd at 12 oed nawr yn dod o dan gwmpas y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a gofynion arolygu cysylltiedig.

Bydd y newid polisi hwn hefyd yn rhoi cyfle i effeithio ar feysydd traws-bolisi eraill gan gynnwys mynd i'r afael â'r agenda tlodi. Bydd y newid hwn yn galluogi mwy o rieni yng Nghymru i fanteisio ar gymorthdaliadau treth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â'r gost o ddefnyddio gofal plant cymeradwy, cofrestredig. Bydd hyn yn helpu i leihau costau gofal plant, ac felly yn gweithredu ar y flaenoriaeth tlodi i alluogi mwy o rieni i fanteisio ar ofal plant fforddiadwy.

## Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Mae ymateb y Gweinidog i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ei phenderfyniadau o ganlyniad, ar gael yma.

## Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

**Cyllidebau**

| **A yw llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi effeithio ar gyllidebau?**<br><br>Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, bod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | **Nac ydy** |
|---|---|
| **Rhowch unrhyw fanylion:**<br>Mae gofynion egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r polisi hwn a lle bo'n bosibl, wedi'u hymgorffori o fewn y polisi. Bydd adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn cymryd i ystyriaeth anghenion plant hŷn, ac ymestyn y broses o gofrestru darparwyr gofal plant tu hwnt i blant 8 oed, yn arwain at gostau ychwanegol, ond roedd y rhain yn rhan o'r penderfyniad polisi gwreiddiol ac nid o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | |

**Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau'r CCUHP**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:
**www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc:
**www.cliconline.co.uk/cym/newyddion**

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:
**http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents**

WG16876

### Erthygl 1
Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

### Erthygl 2
Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

### Erthygl 3
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

### Erthygl 4
Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

### Erthygl 5
Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

### Erthygl 6
Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

### Erthygl 7
Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

### Erthygl 8
Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

### Erthygl 9
Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

### Erthygl 10
Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

### Erthygl 11
Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

### Erthygl 12
Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

### Erthygl 13
Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

### Erthygl 14
Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

### Erthygl 15
Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

### Erthygl 16
Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

### Erthygl 17
Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

### Erthygl 18
Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

### Erthygl 19
Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.

### Erthygl 20
Rhaid i bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

### Erthygl 21
Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

### Erthygl 22
Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

### Erthygl 23
Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

### Erthygl 24
Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 25
Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

### Erthygl 26
Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

### Erthygl 27
Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

### Erthygl 28
Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 29
Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

### Erthygl 30
Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

### Erthygl 31
Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

### Erthygl 32
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

### Erthygl 33
Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

### Erthygl 34
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

### Erthygl 35
Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

### Erthygl 36
Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

### Erthygl 37
Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

### Erthygl 38
Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

### Erthygl 39
Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

### Erthygl 40
Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

### Erthygl 41
Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

### Erthygl 42
Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.